

# Adeiladu Economi Leol Newydd yng Nghymru 18 Hydref 2017, Stadiwm Dinas Caerdydd

## Agenda

---

### 10.30am Gosod y cyd-destun: Economi Leol Newydd i Gymru

Bydd Chris Johnes (BCT) a Neil McInroy (CLES) yn cyflwyno'r diwrnod ac yn gosod y cyd-destun.

---

### 11-11.15am Economiâu Lleol Newydd: Adeiladu Cyfoeth Lleol

Bydd Ted Howard o Democracy Collaborative yn amlinellu ei waith yn UDA ac yn dangos sut mae mudiad byd-eang ar gyfer newid ar droed ledled y byd, a bod rhaid i Gymru gyflymu'r gwaith o adeiladu cyfoeth cymunedol.

---

### 11.15-11.45am Yr Heriau a'r Gobeithion

Sarah Lloyd Jones, Pobl a Gwaith  
Ben Cottam, Ffederasiwn y Busnesau Bach  
Tim Peppin, CLILC

---

### 11.45am- 12pm Sesiwn Holi ac Ateb/ Trafodaeth

Sesiwn ryngweithiol er mwyn trafod a gofyn cwestiynau.

---

### 12pm-12.50pm Gweithdai

Dewiswch un o'r canlynol (byddant yn cael eu hailadrodd yn sesiwn y prynhawn).

- **Datblygu Cyfoeth Lleol**

**Cadeirydd:** Neil McInroy, CLES

**Siaradwyr:** Sel Williams a Ceri Cunningham, Cwmni Bro Ffestiniog;

Y Cyngorydd Matthew Brown, Cyngor Preston

Mae Datblygu Cyfoeth Lleol (CWB) wrth wraidd ton newydd bwerus o economeg a gweithgarwch economaidd blaengar. Bydd y gweithdy yn cyflwyno CWB, ac yna'n edrych ar sut gall amrywiaeth o ddulliau arloesol ym maes economi leol helpu i sicrhau gwell economi i bawb.

- **Cefnogi Ardaloedd Cadarns**

**Cadeirydd:** Sarah Stone, Y Samariaid

**Siaradwyr:** Bryn Jones, Fforwm Penparcau; Dave Horton, Action on Caerau and Ely

Mae sefydliadau cymunedol yn rhoi canolbwynt ar gyfer adeiladu cymunedau. Drwy ddefnyddio dwy astudiaeth achos, bydd y sesiwn hon yn dangos sut mae amrywiaeth o weithgareddau yn cyfrannu at gadernid, yn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac yn dod â phobl at ei gilydd.

- **Sefydliadau Angori**

**Cadeirydd:** Matthew Jackson, CLES

**Siaradwr:** Jonathan Morris, Tai Tarian

Mewn llawer o'n lleoliadau, mae sefydliadau mawr fel ysbytai, awdurdodau lleol a darparwyr tai yn chwarae rôl allweddol fel cyflogwyr, prynwyr nwyddau a gwasanaethau, deiliaid tai a thir a buddsoddwyr. Cewch glywed sut gall grym yr 'angorau' hyn gyda'i gilydd arwain at lawer o fudd cymdeithasol ac economaidd.

## Gweithdai (cont)

- **Economi Sylfaenol**

**Cadeirydd:** Chris Johnes, BCT

**Siaradwyr:** Ian Thomas, Croeso i'n Coedwig; Dafydd Meurig, Partneriaeth Ogwen  
Mewn llawer o'r ardaloedd tlotaf, mae'r farchnad yn methu, gydag economïau sydd wedi cael eu sathru o ganlyniad i donnau o ddad-ddiwydiannu, diffyg buddsoddiad yn yr economi go iawn, a dirwasgiad. Rhaid i ni sicrhau perchnogaeth leol dros y nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol sydd eu hangen i fyw bywyd gwâr. Mae'r gweithdy hwn yn egluro sut mae gwneud hynny.

- **Busnes Lleol**

**Cadeirydd:** Joshua Miles, Ffederasiwn y Busnesau Bach

**Siaradwyr:** Ceri ac Aled Roberts, Delwedd; Neil Blockely, Little Inspirations

Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar rôl busnesau lleol er mwyn adeiladu economïau lleol cryfach: y budd economaidd y gall busnesau lleol ei gyflwyno, sut mae modd cefnogi busnesau i gyflogi pobl leol a sut gallant weithio gyda sefydliadau eraill i gael y budd mwyaf posibl i'r ardal leol.

- **Gofal Cymdeithasol**

**Cadeirydd:** Jenny O'Hara Jakeway, Credu

**Siaradwr:** Lyndsey Campbell-Williams, Medrwn Môn

Bydd y gweithdy hwn yn ymchwilio i sut mae gofal cymdeithasol lleol yn darparu cyfleoedd economaidd ac yn gweithio i gadw cymunedau gyda'i gilydd. Bydd yn archwilio'r rôl hanfodol y mae busnesau, cyrff cyhoeddus a mudiadau cymunedol yn ei chwarae er mwyn darparu gwahanol fathau o ofal cymdeithasol.

- **Trefi Trawsnewid**

**Cadeirydd:** Anna Nicholl (Sesiwn Bore) a Peter Davies (Sesiwn Prynawn), WCVA

**Siaradwr:** Gina Wilson, Ymddiriedolaeth Carnegie

Bydd y gweithdy hwn yn ystyried dulliau cynhwysfawr newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwneud trefi'n fwy cadarn. Drwy ddefnyddio astudiaethau achos rhyngwladol, bydd yn dangos beth sy'n cael ei wneud yn strategol a sut mae angen i gynnwys polisiau fod yn hyblyg er mwyn galluogi ein trefi i fod yn gadarn ac i ffynnu.

---

**12.50pm-1.40pm**

**Cinio**

---

**1.40pm-2.30pm**

**Gweithdai**

Ailadrodd y sesiynau uchod.

---

**2.30pm-3pm**

**Mudiad er mwyn Newid**

Bydd y sesiwn olaf yn ystyried y camau nesaf ar gyfer datblygu mudiad dros newid, ac yn cynnwys siaradwyr gwadd sy'n chwarae rolau allweddol yn y gwaith o lywio'r agenda hon.

---

**3pm**

**Lluniaeth a rhwydweithio**

---